

YMARFER 19: Sylwadau

We are facing two inextricably linked crises¹ – the climate emergency and the massive decline of nature across the globe. Conserving wildlife and addressing climate change have sometimes seemed like opposites² in the environmental world, but both climate and biodiversity are in crisis, and we need to understand the increasing connections between them.

Numerous scientific studies have now looked at the impact of climate change on nature globally and in the UK. There are some apparent positives³, such as increasing numbers of certain birds spotted by British birdwatchers over recent decades. We are also seeing ‘new’ species of butterfly and dragonfly.

But the good news is limited.⁴ Not only is it too early to say⁵ what the impact of some recent immigrants may be on other native species, but globally the impact of climate on nature remains overwhelmingly negative.⁶ Extreme ‘heat events’ are bleaching coral reefs.⁷ Tropical and sub-tropical forests are drying out, with the result that they become much more vulnerable to wildfire⁸, whether caused by a dry lightning strike or a carelessly tossed cigarette butt.

Anyone who cares passionately about nature would therefore be wise to act on climate change as well⁹, and there is growing evidence of actions that benefit both, such as tree planting, restoring wetlands and creating green spaces in cities.

None of these measures can replace the overriding need to wean our economies off fossil fuels¹⁰ and overhaul our agricultural systems and diets¹¹, but we should scale up all available methods before it’s too late.¹²

1. Ystyr/ Cywirdeb ...two inextricably linked crises...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. ...*dau argyfwng cysylltiedig eu hanfod...*
2. ...*dau argyfwng sydd heb os yn gysylltiedig...*
3. ...*dau argyfwng sy'n glwm a'i gilydd...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. ...*dau argyfwng sydd â chyswllt anorfod rhyngddynt...*
2. ...*dau argyfwng y mae cyswllt annatod rhyngddynt...*

SYLWADAU:

1. Mae angen cyfleu mai at natur y cysylltiad rhwng y ddau argyfwng y mae'r adferf '**inextricably**' yn cyfeirio yma. Mae Afl.1 ac Afl.2 yn newid ystyr y gwreiddiol ac mae Afl.3 yn hepgor gair. Hefyd yn Afl.3, 'ynghlwm wrth' fyddai'r ffurf gywir ar yr ymadrodd hwn.

2. Cywair/ Cystrawen

...have sometimes seemed like opposites...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...weithiau wedi ymddangos yn gyfarwynebau*
2. *...weithiau wedi ymddangos fel gwrthgyferbyniad...*
3. *...wedi ymddangos weithiau yn faterion nad ydynt yn cyd-dynnu...*
4. *Weithiau...wedi'u hymddangos i fod yn weithredoedd croes i'w gilydd...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...wedi teimlo fel dau begwn cyferbyniol...ar adegau...*
2. *Ar brydiau, mae wedi ymddangos bod...yn tynnu'n groes i'w gilydd...*
3. *...weithiau wedi teimlo fel eu bod yn gwrthwynebu ei gilydd...*

SYLWADAU:

1. Mae dylanwad y Saesneg i'r weld ar sawl un o'r cyfieithiadau aflwyddiannus uchod – yn enwedig o ran yr elfen '**seemed like**'. Mae *ymddangos fel*, *ymddangos yn* ac *wedi'u hymddangos i fod yn* i gyd yn dilyn cystrawen y darn gwreiddiol yn rhy slafaid yn y cyd-destun hwn, ac mae angen newid trefn y frawddeg er mwyn ei chyfieithu'n naturiol i'r Gymraeg.

2. Mae'r gair '**opposites**' hefyd wedi peri anhawster (Afl.1 ac Afl.2). Nid yw *cyfarwynebau* na *gwrthgyferbyniad* yn gynigion cywir yn y cyd-destun hwn, ac mae cyfieithiadau Afl.3 ac Afl.4 yn enghreifftiau o orgyfieithu sy'n newid yr ystyr.

3. Ystyr

There are some apparent positives...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Mae yna elfennau cadarnhaol amlwg...*
2. *Mae rhai pethau sy'n amlwg yn gadarnhaol...*
3. *Mae rhai atebion cadarnhaol...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Mae yna rai pethau cadarnhaol yn ôl pob golwg...*
2. *Mae rhai elfennau sy'n ymddangos yn gadarnhaol...*
3. *Mae'n ymddangos bod rhai pethau cadarnhaol...*

SYLWADAU:

1. Mae'r gair '**apparent**' wedi peri anhawster yma. Drwy ddewis y gair *amlwg*, mae Afl.1 ac Afl.2 yn methu â chyfleu'r elfen o ansicrwydd sydd yn y Saesneg, ac nid yw Afl.3 yn rhoi cynnig ar gyfieithu'r gair o gwbl.
2. Gellir dadlau bod y gair *atebion* yn amhriodol yn y cyd-destun hwn hefyd. Mae angen mwy nag un gair yn y Gymraeg i gyfleu'r un ystyr â '**positives**', ond mae rhywbeth fel *pethau* neu *elfennau* yn nes ati.

4. Ystyr/ Cystawen

But the good news is limited.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Ond mae'r newyddion da yn gyfyngedig.*
2. *Ond nid yw'r newyddion da yn ddiderfyn.*
3. *Ond mae pendraw ar y newyddion da.*
4. *Serch hynny, prin iawn yw'r pwyntiau cadarnhaol.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Ond prin yw'r newyddion da.*
2. *Ond prin yw'r newydd da.*
3. *Ond mae terfyn ar y newyddion da.*

SYLWADAU:

1. Mae angen i'r gystrawen gyfleu'r pwyslais yn gywir yn y frawddeg hon. Er nad yw Afl.1 yn anghywir fel y cyfryw, y cyfieithiadau sydd wedi newid trefn y frawddeg er mwyn rhoi *prin* cyn *newyddion* yw'r rhai mwyaf llwyddiannus.
2. Mae Afl.2, Afl.3 ac Afl.4 yn newid yr ystyr mewn ffordd sy'n awgrymu bod y rhan fwyaf o'r newyddion yn gadarnhaol, ac mae Af.5 yn rhy gryf ac yn enghraifft o orgyfieithu.

5. Cystawen

Not only is it too early to say...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Mae nid yn unig yn rhy gynnar i ddweud...*
2. *Mae'n rhy gynnar i ddweud...*
3. *Mae dal yn rhy fuan i ddweud...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Nid yn unig y mae hi'n rhy gynnar i ddweud...*
2. *Nid yn unig y mae'n rhy gynnar i ddweud...*

SYLWADAU:

1. Unwaith eto, mae'r gystrawen yn bwysig yma er mwyn cyfieithu cymal gweddol gymhleth yn gywir gan gyfleu'r un ystyr a phwyslais. Mae'r gystrawen yn Afl.1 braidd yn lletchwith ac mae Afl.2 ac Afl.3 yn ceisio osgoi'r broblem drwy hepgor '**not**

only yn llwyr. Yn Afl.3 mae *dal* wedi ei ychwanegu yn ddiangen hefyd, gan newid yr ystyr.

6. Ystyr/
Cywair

...remains overwhelmingly negative.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...yn ysgubol negyddol.*
2. *...yn parhau i fod yn negyddol ar y cyfan.*
3. *...yn parhau i fod yn fwy negyddol o lawer.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...yn parhau'n dra negyddol.*
2. *...yn parhau i fod yn negyddol dros ben.*
3. *...yn parhau i fod yn negyddol tu hwnt.*
4. *...yn dal i fod yn llethol o negyddol.*
5. *...yn parhau i fod yn anorchfygol o negyddol.*

SYLWADAU:

1. Nid yw *ysgubol negyddol* yn taro deuddeg i gyfleu '**overwhelmingly negative**', ac yn Afl.1 hefyd gwelir hepgor '**remains**'.
2. Nid yw Afl.2 nac Afl.3 yn llwyddo i gyfleu'r ystyr yn gywir – mae'r naill yn rhy wan a'r llall yn rhy gryf. Ceir sawl cyfieithiad derbyniol ymhlith yr enghreifftiau llwyddiannus, a byddai 'o hyd' ar ddiwedd y frawddeg hefyd yn ffordd effeithiol o gyfieithu '**remains**'.

7. Ystyr/
Cywair

Extreme 'heat events' are bleaching coral reefs.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Mae 'digwyddiadau cynhesu' yn lladd riffiau cwrel.*
2. *Mae 'achlysuron o wres' eithafol yn diliwio riffiau cwrel.*
3. *Mae 'achosion o dywydd poeth' eithafol yn gwynnu riffiau cwrel.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Mae 'digwyddiadau gwres' eithafol yn diliwio riffiau cwrel.*
2. *Mae 'digwyddiadau gwres' eithafol yn diliwio creigresi cwrel.*
2. *Mae 'digwyddiadau gwres' eithafol yn gwynnu riffiau cwrel.*

SYLWADAU:

1. Mae gwahaniaeth rhwng *cynhesu* ('warming') a *gwres* ('heat') ac yn Afl.1 gwelir hepgor '**extreme**', sy'n bwysig o ran yr ystyr. Nid yw'r gair *lladd* yn ddewis priodol i gyfleu ystyr '**bleaching**' – *diliwio* neu *gwynnu* fyddai'r opsiynau mwyaf naturiol.
2. Nid yw cyfieithiadau Afl.2 nac Afl.3 o '**heat events**' yn taro deuddeg chwaith, a gellir dadlau bod y cyfieithydd wedi'i chael hi'n anodd taro cydbwysedd rhwng glynu wrth ystyr y darn

gwreiddiol a llunio cyfieithiad sy'n darllen fel darn Cymraeg naturiol.

8. Ystyr/
Cywair

...much more vulnerable to wildfire...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...yn fwy agored i dân gwyllt...*
2. *...yn fwy archolladwy i dannau gwyllt...*
3. *...yn fwy diymgeledd yn wyneb tanau gwyllt...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...mewn llawer mwy o berygl o danau gwyllt...*
2. *...yn llawer mwy agored i niwed gan danau gwyllt...*

SYLWADAU:

1. Mae'r gair '**vulnerable**' yn peri anhawster yma. Er bod Afl.1 yn weddol agos ati, mae angen ychwanegu rhywbeth ar ôl *agored* er mwyn cyfleu'r ystyr yn gliriach. Yn Afl.2, nid yw *archolladwy* yn ddewis priodol yn y cyd-destun hwn ac, er y ceir cynnig teg yn Afl.3, mae'r ystyr fymryn yn wahanol i'r hyn a geir yn y darn gwreiddiol, h.y. mae'r cyfieithiad hwn yn awgrymu na fydd coedwigoedd yn gallu amddiffyn eu hunain pan fydd tanau gwyllt, yn hytrach na bod y tanau gwyllt yn fwy tebygol o ddigwydd.

2. Er mai'r unigol '**wildfire**' sydd yn y Saesneg, mae angen defnyddio'r ffurf luosog *tanau gwyllt* yn Gymraeg er mwyn gwahaniaethau rhwng '**wildfire**' a '*fireworks*'. Sylwer hefyd mai un 'n' sydd yn tanau (Afl.2).

3. Hefyd, dylid nodi bod y cyfieithiadau aflwyddiannus wedi hepgor '**much**'. Gan fod y frawddeg hon yn un lletchwith i'w chyfieithu mae'n hawdd iawn anghofio ei gynnwys, sy'n dangos pwysigrwydd darllen dros gyfieithiadau yn ofalus ar ôl gorffen.

9. Cywair/
Cystawen

Anyone who cares passionately about nature would therefore be wise to act on climate change as well...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Byddai unrhyw un sy'n poeni'n angerddol am natur felly yn ddoeth i weithredu ar newid hinsawdd hefyd...*
2. *Felly byddai unrhyw un sy'n caru natur yn angerddol yn ddoeth i gymryd camau ar newid hinsawdd...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Byddai felly'n beth doeth i unrhyw un sy'n teimlo'n angerddol dros natur weithredu dros newid yn yr hinsawdd hefyd...*
2. *Byddai'n ddoeth felly i unrhyw un sy'n poeni'n ddirfawr am natur hefyd gymryd camau o ran y newid yn yr hinsawdd...*

SYLWADAU:

1. Mae dylanwad y Saesneg i'w weld ar y gystrawen yn Afl.1 (e.e. *yn ddoeth i weithredu*) a byddai newid trefn y frawddeg fel y gwelir yn yr enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus yn fwy naturiol.
2. Mae Afl.2 yn cynnwys cyfieithiad amhriodol o '**cares passionately**' yn y cyd-destun hwn (anaml y gellir 'caru' unrhyw beth ond pobl yn Gymraeg) ac mae *poeni'n ddirfawr* fel y gwelir yn yr ail gyfieithiad llwyddiannus yn llawer nes ati.

10. Ystyr/ Cywair

...to wean our economies off fossil fuels...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...i diddyfnu ein heconomiâu o danwydd ffosiledig...*
2. *...i symud ein heconomiâu i ffwrdd o ddefnyddio tanwyddau ffosil...*
3. *...i atal ein heconomiâu rhag defnyddio ynni craidd fesul tipyn...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...i leihau ein defnydd o danwyddau ffosil o fewn ein heconomiâu dros amser...*
2. *...i leihau dibyniaeth ein heconomiâu ar danwyddau ffosil...*

SYLWADAU:

1. Y brif elfen sy'n peri anhawster yma yw'r ymadrodd Saesneg '**to wean...off**'. Yn Afl.1 mae *diddyfnu* yn rhy lythrennol ac felly'n ddewis amhriodol yn y cyd-destun hwn. Mae Afl.2 ac Afl.3, yn ceisio osgoi cyfieithu llythrennol, ond nid ydynt yn taro deuddeg nac yn darllen yn gwbl naturiol.
2. Mae'r term *tanwyddau ffosil* wedi hen ennill ei blwyf am '**fossil fuels**' ac felly nid yw'r cynigion a welir yn Afl.1 nac Afl.3 yn dderbyniol.

11. Ystyr

...and overhaul our agricultural systems and diets...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...ac atgyweirio ein systemau amaethyddol a'n bwydydd...*
2. *...ac archwilio ein systemau amaethyddol a diet...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...a gweddnewid ein systemau amaethyddol a'n harferion bwyta...*
2. *...a newid ein systemau amaeth a'n deietau yn llwyr...*
3. *...a thrawsnewid ein systemau amaethyddol yn ogystal â'n deiet...*

SYLWADAU:

1. Nid yw *atgyweirio* nac *archwilio* yn gyfieithiadau priodol o '**overhaul**' yn y cyd-destun hwn, ac mae'r cynigion a geir yn y cyfieithiadau llwyddiannus yn llawer nes ati.

2. Yn yr un modd, nid yw *bwydydd* yn gyfieithiad digon cywir i gyfleu 'diets'. Mae *dietau* a *deietau* ill dau yn y geiriadur (er mai 'deietau' sy'n cael ei ffafrio gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd) a gellir dadlau bod yr enw unigol *deiet* a'r cyfieithiad mwy 'creadigol' *arferion bwyta* yn cyfleu'r ystyr yn fwy naturiol, er nad ydynt yn cyfateb yn union i'r hyn a geir yn y Saesneg.

12. Ystyr/ Cywirdeb

...we should scale up all available methods before it's too late.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...dylwn ddefnyddio pob dull sydd ar gael cyn ei fod yn rhy hwyr.*
2. *...dylem gryfhau bob dull posibl sydd ar gael cyn iddi fynd yn rhy hwyr.*
3. *...dylwn gynyddu graddfeydd yr holl dulliau sydd ar gael cyn ei fod yn rhy hwyr.*
4. *...dylen ni bwysu a mesur bob dull sydd ar gael cyn ei bod hi'n rhy hwyr.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...dylem wneud y mwyaf o bob dull sydd ar gael cyn iddi fod yn rhy hwyr.*
2. *...dylem ddefnyddio pob dull sydd ar gael inni i'r eithaf cyn ei bod hi'n rhy hwyr.*
3. *...dylem gynyddu'r defnydd o bob dull sydd ar gael cyn ei bod yn rhy hwyr.*

SYLWADAU:

1. Er mwyn cyfleu'r cymal hwn yn llwyddiannus, mae angen cyfleu ystyr '**scale up**' yn gywir yn y cyd-destun hwn, sef defnyddio pob un o'r dulliau sydd ar gael ar raddfa fwy. Mae'r enghreifftiau o gyfieithu aflwyddiannus naill ai yn camddeall yr ystyr yn llwyr neu yn ei chyfleu mewn ffordd drwsogl ac aneglur.
2. Mae cywirdeb hefyd yn broblem yn yr enghreifftiau uchod, e.e. *cyn ei fod yn rhy hwyr* (ni ddylid treiglo 'bod' wrth gyfeirio at 'hi gwag'), *gryfhau bob dull* (ni ddylid treiglo 'pob' ar ôl berfenw) a *dylwn* (y ffurf person cyntaf lluosog *dylem* sy'n gywir yma, yn hytrach na'r ffurf person cyntaf unigol).